Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

01 MAI 2019

BIL PLANT (DIDDYMU AMDDIFFYNIAD COSB RESYMOL) (CYMRU)

Annwyl Aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,

Cyfarfu Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn eu rhanbarthau yn ddiweddar, ac roeddent yn ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yn y broses o gasglu tystiolaeth ar gyfer Cyfnod 1 y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).

Cynhaliwyd sesiwn a roddodd gyfle i Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru ddysgu mwy am rôl y Pwyllgorau, ac am y broses ddeddfwriaethol. Yna, cynhaliwyd trafodaeth fanylach ar egwyddorion y Bil, a gafodd ei hwyluso gan dîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Cynulliad.

Yn dilyn y drafodaeth hon, cafwyd pleidlais gudd, pan ofynnwyd i Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru bleidleisio ar y cwestiwn a ganlyn: **A ydych chi'n cefnogi egwyddorion y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)?**

Dyma ganlyniad y bleidlais:

PLEIDLAIS	NIFER
Ydw	42
Nac ydw	12
Ymatal	2
Ddim yn bresennol i bleidleisio	4

Diolch eto am y cyfle unigryw hwn i ymgysylltu â darn byw o ddeddfwriaeth, ac i fwydo i mewn iddi'n uniongyrchol a chraffu arni.

Yn gywir,

Senedd Ieuenctid Cymru